Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir



Mehefin 2024

PC 45: Cynnydd Poblogaeth, Tai ac Effaith Addysg

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor. Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 576311 / 575445 / 575432 / 574232 / 575447.

Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.

Cynnwys

1 Cyflwyniad 4
2 Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chanllawiau 4
3 Y ddarpariaeth bresennol o ran ysgolion 5
4 Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy 6
5 Effaith y twf rhagamcanol yn ystod cyfnod y CDLlN ar gapasiti ysgolion 8
6 Dull polisi'r CDLlN 10
7 Ysgolion Cynradd 11
7.1 Ardal Strategaeth CDLlN y Gorllewin: Llanfairfechan, Penmaenmawr a Dwygyfylchi 11
7.2 Ardal Strategaeth CDLlN y Creuddyn: 16
7.3 Ardal Strategaeth CDLlN yr Ardal Ganolog: Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn, Hen Golwyn, Mochdre a Llysfaen 26
7.4 Ardal Strategaeth CDLlN y Dwyrain: Abergele, Towyn a Bae Cinmel, a Llanddulas 36
7.5 Ardal Wledig y CDLlN: Llanrwst 40
8 Ysgolion Uwchradd 43
9 Darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol 45
10 Casgliad 45

1 Cyflwyniad

1.1 Mae hwn yn un o gyfres o bapurau cefndir sy'n gysylltiedig â'r Cynllun Datblygu Lleol Newydd (CDLlN). Pan fydd y Cyngor yn cyhoeddi ei Gynllun i'w Archwilio gan y Cyhoedd, mae'n rhaid iddo hefyd egluro sut mae'r polisi wedi'i lunio ar sail y dystiolaeth sydd ar gael i'r Cyngor ar y pryd.

1.2 Mae'r papur hwn wedi'i baratoi gyda Gwasanaethau Addysg CBSC. Mae Datganiad Tir Cyffredin wedi'i baratoi ochr yn ochr â'r papur hwn. Pwrpas y papur cefndir hwn yw:

- Manylu ar newid yn y boblogaeth yn ôl y CDLlN a'r effaith bosibl ar nifer y disgyblion
- Manylu ar y ddarpariaeth ysgol bresennol a'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy
- Nodi a oes angen neilltuo tiroedd strategol ac ardaloedd wedi'u diogelu er mwyn cwrdd â'r ddarpariaeth ysgol newydd
- Asesu effaith safleoedd preswyl arfaethedig sydd wedi'u neilltuo a safleoedd tai eraill ar gapasiti ysgolion ac argymell mesurau lliniaru priodol
- Adolygu polisi addysg presennol y CDLl a darparu trosolwg o'r dull polisi diwygiedig ar gyfer y CDLlN

2 Polisi Cynllunio Cenedlaethol a Chanllawiau

2.1 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) wedi'i adolygu er mwyn iddo gyd-fynd â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae PCC wedi'i rannu'n bedair thema amlwg, sy'n dod â gofynion y Ddeddf i gyd-destun ar gyfer y polisi cynllunio ac yn dangos y rhyng-gysylltiadau rhwng polisïau cynllunio. Mae addysg yn rhan o thema Lleoedd Egnïol a Chymdeithasol, dan Gyfleusterau Cymunedol.

2.2 Mae paragraff 4.4.1 yn dweud bod ysgolion, a chyfleusterau cymunedol eraill, yn cyfrannu tuag at ymdeimlad o le, sy'n bwysig ar gyfer iechyd, lles ac amwynder cymunedau lleol. Mae cyfleusterau cymunedol, fel ysgolion, yn aml yn elfen allweddol o leoedd hyfyw a chynaliadwy.

2.3 Dylai awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu dull strategol a hirdymor ar gyfer darparu cyfleusterau cymunedol, gan gynnwys ysgolion. Dylid ystyried anghenion y gymuned leol wrth ystyried cynigion datblygu, er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth yn parhau i fodloni gofynion preswylwyr lleol.

2.4 Mae ysgolion hefyd wedi'u cynnwys yn adran Creu Lleoedd Strategol PCC, dan hygyrchedd. Dylai cyfleusterau sy'n achosi galw mawr am deithio, yn cynnwys ysgolion, gael eu lleoli o fewn ardaloedd trefol sy'n bodoli'n barod neu ardaloedd sy'n hawdd eu cyrraedd ar droed neu feic, ac sydd wedi'u gwasanaethu gan gludiant cyhoeddus.

2.5 Ni ddylai defnyddiau sensitif, yn cynnwys ysgolion, fod wrth ymyl ffyrdd prysur na llwybrau cludiant eraill lle nad oes manteision o ran cysylltiadau, a lle mae'r amlygiad pellach i lygryddion yn effeithio ar iechyd ac amwynder yn negyddol (paragraff 6.7.19). Mae'n bosibl y gall mesurau lliniaru a dylunio da oresgyn yr effaith negyddol ar iechyd a lles.

3 Y ddarpariaeth bresennol o ran ysgolion

3.1 Mae yna 51 ysgol gynradd, 7 ysgol uwchradd, 1 ysgol arbennig a 4 Canolfan Cyfeirio Disgyblion yn y fwrdeistref. Mae addysg ysgol annibynnol hefyd ar gael yn y fwrdeistref, yng Ngholeg Dewi Sant a Rydal Penrhos. Ni fydd pob disgybl yn preswylio yn y fwrdeistref.

3.2 Mae'n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol (Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013) i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru. Bydd y cynlluniau hyn yn para 10 mlynedd o fis Medi 2022 ac yn amlinellu sut mae awdurdodau lleol yn bwriadu cyrraedd nodau a thargedau Llywodraeth Cymru fel y nodir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.

3.3 Gweledigaeth Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Conwy yw cynyddu darpariaeth addysg Gymraeg y fwrdeistref o 14%+ dros y deng mlynedd nesaf er mwyn cyrraedd nod Llywodraeth Cymru o 30% erbyn 2031.

3.4 Dyma'r ysgolion cyfrwng Cymraeg sydd yn y fwrdeistref:

- 20 ysgol gynradd lle defnyddir y Gymraeg fel iaith bob dydd yr ysgol
- 1 ysgol ddwy ffrwd, lle defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg fel iaith bob dydd yr ysgol
- 1 ysgol ddwyieithog, ble mae 50-79% o'r pynciau yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg
- 14 ysgol Saesneg gyda llawer o Gymraeg, a ble caiff iaith neu ieithoedd yr ysgol o ddydd i ddydd eu pennu gan gyd-destun ieithyddol yr ysgol

3.5 Ceir 5 ysgol ffydd yn y fwrdeistref:

- Ysgol Sant Joseff, ysgol gynradd Gatholig ym Mae Colwyn
- Ysgol y Plas, ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru yn Llanelian
- Ysgol San Siôr, ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir gan yr Eglwys yng Nghymru yn Llandudno
- Ysgol Bodafon, ysgol gynradd yr Eglwys yng Nghymru yn Llandudno
- Ysgol Bendigaid William Davies, ysgol gynradd Gatholig yn Llandudno

4 Rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy

4.1 Mae gan Lywodraeth Cymru raglen newydd o fuddsoddiad hirdymor ar gyfer ysgolion a cholegau er mwyn eu datblygu'n ganolfannau dysgu a lleihau nifer yr adeiladau sydd mewn cyflwr gwael.

4.2 Mae Gwasanaethau Addysg a thîm Pholisi Cynllunio Strategol CBSC yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r prosiectau hyn. Ar gyfer y CDLlN, mae hyn yn cynnwys darpariaeth ar gyfer tir newydd i godi ysgolion newydd neu estyn adeiladau ysgol presennol (pan fo angen) a dull polisi sy'n ganllaw i geisiadau. Gwelwch Adran 6 am fwy o fanylion.

4.3 Darparwyd y don gyntaf fel rhan o brosiectau Band A Rhaglen Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif ac fe'u cyflawnwyd fis Mawrth 2019. Cyflawnodd brosiectau Band A Bwrdeistref Sirol Conwy newidiadau mewn pedair ardal. Codwyd ysgol ddwy ffrwd newydd, Ysgol Awel y Mynydd, yng Nghyffordd Llandudno, a ddaeth â disgyblion Ysgol Maelgwn ac Ysgol Nant y Coed at ei gilydd. Agorwyd yr ysgol yn swyddogol fis Tachwedd 2017.

4.4 Mae ysgol gynradd ddilyniannol newydd, Ysgol Nant y Groes, wedi'i chodi ym Mae Colwyn drwy ailwampio ac estyn yr adeilad ysgol presennol. Daeth â disgyblion Ysgol Babanod Glan y Môr ac Ysgol Iau Pendorlan at ei gilydd. Agorodd yr ysgol newydd fis Ionawr 2018.

4.5 Ailddatblygwyd safle Ysgol Tan y Marian i ddod â disgyblion Ysgol Babanod Penmaenrhos ac Ysgol Iau Tan y Marian at ei gilydd mewn ysgol newydd sbon o'r enw Ysgol Sŵn y Don. Mae hon yn ysgol gynradd ddilyniannol ac fe'i hagorwyd fis Ionawr 2018.

4.6 Codwyd ysgol newydd, Ysgol Dyffryn yr Enfys, yn Nolgarrog, i ddisodli Ysgol Dolgarrog, Ysgol Tal y Bont ac Ysgol Trefriw. Agorwyd yr ysgol yn 2019.

4.7 Mae'r dull wedi newid ers hyn, er mwyn adlewyrchu canfyddiadau profiadau blaenorol. Mae'r dull bellach yn rhaglen dreigl 9 mlynedd, gydag adolygiadau rheolaidd. Bydd yn cael ei gyflwyno i Gabinet CBSC ar 16 Gorffennaf 2024 a bydd yr adran hon o'r papur yn cael ei diweddaru wedyn.

4.8 Mae'r adroddiad yn awgrymu'r prosiectau canlynol (yn amodol ar gefnogaeth wleidyddol):

- **Blynyddoedd 1-3: Ysgol y Gogarth ac Ysgol Eirias**

  Nid oes angen tir ychwanegol ar gyfer y prosiectau hyn. Bydd dull polisi'r CDLlN yn cefnogi unrhyw gais cynllunio, yn amodol ar ofynion polisi eraill.

- **Blynyddoedd 4-6: Ysgol Deganwy ac ardal Llanfairfechan**

  Mae gormod o ddisgyblion yn Ysgol Deganwy ac maen nhw'n defnyddio ystafell ddosbarth dros dro ar y safle. Gall cynyddu nifer y lleoedd ar safle presennol yr ysgol drwy godi estyniad ddatrys y problemau. Os ystyrir y

bydd angen ysgol newydd yn y dyfodol, bydd dull polisi'r CDLlN yn cefnogi hynny, yn amodol ar ofynion polisi eraill.

Mae'r safleoedd ysgol yn Llanfairfechan yn gyfyngedig ac mae'r opsiynau o ran codi estyniad arnyn nhw hefyd yn gyfyngedig. Yn ystod cam y Strategaeth a Ffefrir y CDLlN neilltuwyd tir i gefnogi ysgol newydd ar y safle strategol a neilltuwyd. Bydd y tir hwn yn parhau i gael ei neilltuo drwy gydol proses y CDLlN.

- **Blynyddoedd 7-9: Adolygiad ardal o ysgolion Llandudno**

  Bydd y cydweithio agos rhwng y Gwasanaethau Polisi Cynllunio Strategol ac Addysg yn parhau i gefnogi'r adolygiad hwn. Mae'r dull polisi a gynigir yn cefnogi gwaith ailwampio/estyniadau ar safleoedd presennol, neu safleoedd ysgol newydd yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad.

5 Effaith y twf rhagamcanol yn ystod cyfnod y CDLlN ar gapasiti ysgolion

5.1 Opsiwn twf 4 yw'r un a ddefnyddir yn y CDLlN i'w Archwilio gan y Cyhoedd. Gweler Papur Cefndir 1 am fwy o fanylion. Yn y tabl isod mae crynodeb cyffredinol o'r effaith ar blant oed ysgol ar draws y fwrdeistref sirol.

Tabl 1: Yr opsiwn twf a gynigir a'r effaith bosibl ar addysg

Ffynonellau: Rhagamcaniadau 2018, CBSC; ffigyrau dwysedd swyddi, SYG

Dangosydd effaith	Cyfansymiau 2018	Newid / effaith bosibl y dewis a ffefrir 2018-2033
Rhagamcaniad		
Poblogaeth	114,400	4,950
Aelwydydd	52,750	3,350
Addysg		
Oedran cyn-ysgol (0-4)	5,350	-400
Oedran ysgol gynradd (5-10 oed)	7,350	-850
Lleoedd ysgol uwchradd / addysg bellach (11-17 oed)	8,400	400

5.2 Mae'n rhagweld gostyngiad sylweddol yn nifer y disgyblion cynradd (850 yn llai o blant 5-10 mlwydd oed) a chynnydd yn nifer y disgyblion uwchradd. Yn anffodus, mae cywirdeb yr amcanestyniadau hyn gyda daearyddiaeth lai yn golygu na fyddai'n briodol rhannu'r ffigyrau hyn i ardal ddaearyddol lai, oherwydd ni allant gymryd dosbarthiad gofodol tai newydd a newidiadau ar lefel anheddiad unigol i ystyriaeth.

5.3 Oherwydd hyn, cynhaliwyd adolygiad o ddarpariaeth ysgolion ym mhob anheddiad. Y man cychwyn oedd adolygu capasiti presennol ysgolion, nifer y disgyblion a nifer rhagamcanol y disgyblion yn defnyddio data Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD). Lluniwyd amcanestyniadau pum mlynedd ar gyfer pob ysgol yn seiliedig ar nifer y disgyblion sydd eisoes yn mynychu a phlant iau sy'n byw yn y dalgylchoedd.

5.4 Defnyddiwyd methodoleg wahanol i'r amcanestyniadau a ddefnyddiwyd ym Mhapur Cefndir 1: Adroddiad Opsiynau Lefel Twf. Mae amcanestyniadau CYBLD yn fwy priodol i'w defnyddio ar lefel ardal (ysgol) fach na'r rheiny ym Mhapur Cefndir 1, ond mae yna anfanteision hefyd. Dydyn nhw ddim yn ystyried pobl sy'n symud i mewn nac allan o'r ardal, na dewis rhieni. Felly mae angen monitro rheolaidd i wneud yn siŵr bod y data a ddefnyddir yn gadarn ac yn berthnasol.

5.5 Cynhaliwyd dadansoddiad manwl i ddangos faint o ddisgyblion pob ysgol sy'n byw yn nalgylch yr ysgol honno. Aseswyd hyn i weld a fyddai modd creu capasiti drwy roi'r polisi dalgylch ysgolion ar waith yn fwy llym.

5.6 Nid yw amcanestyniadau ysgolion yn ystyried pobl yn symud i mewn ac allan. Oherwydd hyn, mae nifer rhagamcanol o ddisgyblion mewn anheddau newydd, sydd wedi cael caniatâd ac ar safleoedd a neilltuwyd yn y CDLlN ymhob ardal ysgol, wedi'u cynnwys. Mae'r amcangyfrif yn seiliedig ar nifer cyfartalog y plant mewn aelwyd sydd o oedran ysgol, yn ôl Cyfrifiad 2021.

5.7 Y cam olaf oedd dadansoddi i ba ysgol mae plant pob dalgylch yn mynd iddi. Mae hyn yn ein helpu ni i wybod pa ysgolion y bydd y disgyblion yn y datblygiadau newydd yn debygol o fynd iddyn nhw. Mae'r asesiad yn ystyried ffydd, iaith a dewis rhieni.

5.8 Ffactor arall i'w nodi yw canran preswylwyr y tai newydd fydd eisoes yn byw yn y fwrdeistref. Felly mae'n bosibl y bydd y disgyblion yn mynd i ysgol leol yn barod ond mae yna bosibilrwydd hefyd y byddan nhw'n symud i'r ysgol agosaf i'w cartref newydd. Ni cheir data i asesu hyn mewn ffordd gywir, ac felly nid yw'r asesiad o'r effaith isod yn ystyried hyn.

6 Dull polisi'r CDLIN

6.1 Mae'r CDLl mabwysiedig yn cynnwys polisi CFS/15, sy'n cefnogi cynigion ar gyfer ysgolion newydd, yn amodol ar y polisïau egwyddorion datblygu. Mae'r polisi wedi'i roi ar waith yn llwyddiannus i helpu gyda'r cynigion ar gyfer ysgolion sydd wedi cael caniatâd cynllunio yn ystod cyfnod y cynllun, ond ychydig iawn o ganllawiau a geir ar gyfer dau faes penodol. Yn gyntaf, ar gyfer codi estyniad ar ysgol sy'n bodoli eisoes, yn cynnwys estyniadau mawr. Yn ail, nid oes unrhyw arweiniad ar gyfer yr hyn a fyddai'n cael ei ystyried yn lleoliad priodol ar gyfer ysgol newydd.

6.2 Gall y CDLlN neilltuo a diogelu tir yn ôl yr angen ar gyfer ysgolion newydd neu estyniadau. Mi fydd yna bolisi yn seiliedig ar feini prawf sy'n rhoi arweiniad ynglŷn â lleoliad safleoedd newydd ar gyfer ysgolion, gan eu caniatáu gerllaw ffiniau aneddiadau os na ellir canfod lleoliad priodol o fewn y ffiniau.

6.3 Pan fo datblygiadau mawr (ar safleoedd wedi'u neilltuo neu hap-safleoedd) yn debygol o achosi neu waethygu problemau o ran capasiti ysgolion, gofynnir am gyfraniadau ariannol i fynd i'r afael â'r problemau hynny. Cesglir cyfraniadau ariannol tuag at ysgolion drwy rwymedigaethau cynllunio Adran 106. Er mwyn cael caniatâd cynllunio, bydd yn rhaid llofnodi'r cytundeb Adran 106. Mae deddfwriaeth genedlaethol yn cyfyngu trefniadau cyfuno cyfraniadau ariannol o'r broses gynllunio, ac felly ni allwn ofyn am yr un rhwymedigaeth fwy na 5 gwaith. Mewn ardaloedd ble mae problemau capasiti mawr mewn ysgolion, mae'n rhaid ystyried hyn yn gynnar gyda Gwasanaethau Addysg CBSC i sicrhau bod cyfraniadau Adran 106 yn cael eu casglu'n gyfreithiol.

6.4 Byddai angen tystiolaeth briodol o'r cyfraniad ariannol y gofynnir amdano i fodloni Rheoliadau'r ASC (Ardoll Seilwaith Cymunedol) a gofynion cynllunio

eraill. Mae Rheoliad 122 (2) yn nodi bod yn rhaid i rwymedigaeth y gofynnir amdani fod:

I. Yn angenrheidiol i wneud y datblygiad yn dderbyniol o safbwynt cynllunio;
II. Yn ymwneud yn uniongyrchol â'r datblygiad; ac
III. Yn gymharol berthnasol o ran graddfa a'r math o ddatblygiad.

6.5 Er mwyn ceisio rhwymedigaeth tuag at ddarpariaeth addysg, mae'n rhaid gallu dangos bod problemau capasiti oherwydd yr isadeiledd ffisegol (nid staffio) a bwlch ariannol na all unrhyw ffynhonnell arall ei lenwi

6.6 Cyfrifir y swm hwn yn seiliedig ar amcangyfrif o nifer y disgyblion a chostau adeiladu, a nodir yn y Canllaw Cynllunio Atodol sy'n cyd-fynd â'r CDLlN. Bydd yn rhaid i unrhyw rwymedigaeth a geisir ymwneud â'r datblygiad arfaethedig o ran nifer rhagamcanol y disgyblion newydd, ac ni ellir ei defnyddio i unioni diffyg presennol mewn capasiti.

7 Ysgolion Cynradd

7.1 Ardal Strategaeth CDLlN y Gorllewin: Llanfairfechan, Penmaenmawr a Dwygyfylchi

7.1.1 Caiff addysg gynradd yn Llanfairfechan ei ddarparu gan ddwy ysgol ar hyn o bryd, Ysgol Pant y Rhedyn (128 disgybl) ac Ysgol Babanod Llanfairfechan (87 disgybl). Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn y ddwy ysgol yn lleihau dros y 5 mlynedd nesaf.

7.1.2 Mae Ysgol Pencae, Penmaenmawr (123 o ddisgyblion) yn darparu addysg drwy gyfrwng Cymraeg i ardal y strategaeth. Mae yna rywfaint o gapasiti yn Ysgol Pencae, a rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn cynyddu dros y 5 mlynedd nesaf.

7.1.3 Caiff addysg gynradd yn Nwygyfylchi ei darparu'n bennaf gan Ysgol Capelulo (135 o ddisgyblion). Mae Penmaenmawr hefyd yn rhan o ddalgylch yr ysgol hon. Mae'r ysgol bron yn llawn, a rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn cynyddu.

Tabl 2: capasiti a nifer y disgyblion yn ardal strategaeth y Gorllewin (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020 a CYBLD 2024, Addysg, CBSC

Ysgol	Capasiti	Lleoedd gwag	Niferoedd 2024	Niferoedd rhagamcanol 2029	Yn byw yn nalgylch yr ysgol
Babanod Llanfairfechan	92	5	87	83	94%
Ysgol Pant y Rhedyn	173	45	128	116	94%
Ysgol Pencae, Penmaenmawr	183	60	123	168	95%
Ysgol Capelulo, Dwygyfylchi	133	3	135	140	97%

7.1.4 Mae'r tabl uchod hefyd yn dangos canran y disgyblion sy'n mynd i'r ysgolion ac yn byw o fewn dalgylch swyddogol yr ysgol. Ar gyfer pob ysgol yn yr ardal hon, mae rhan fwyaf o'r disgyblion yn byw yn nalgylch eu hysgol.

7.1.5 Ni fydd pob plentyn a fydd yn byw yn y datblygiadau newydd arfaethedig neu ymrwymedig yn yr ardal yn mynd i ysgol y dalgylch. Bydd rhai yn dewis ysgol y tu allan i'r dalgylch am resymau amrywiol. Er enghraifft, bydd rhai yn dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill yn dewis ysgol ffydd.

7.1.6 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Babanod Llanfairfechan ac Ysgol Pant y Rhedyn. Nid yw'n cynnwys disgyblion sy'n cael eu haddysg yng Ngwynedd. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion sy'n cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn mynd i Ysgol Pencae ym Mhenmaenmawr. Wedi'u cynnwys yn y categori 'Arall' mae niferoedd bychain sy'n mynd i Ysgol y Gogarth.

Tabl 3: Dewis ysgol yn nalgylch Ysgol Babanod Llanfairfechan ac Ysgol Pant y Rhedyn (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Pant y Rhedyn)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**250**	**100%**
Babanod Llanfairfechan	85	33%
Ysgol Pant y Rhedyn	140	55%
Arall (CBSC)	10	4%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg*	15	6%
Ysgolion ffydd**	5	2%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.1.7 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Pencae, Penmaenmawr. Mae'r dalgylch yn gorchuddio holl ardal y gorllewin. Mae 21% o blant yr ardal hon yn cael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae 70% ohonyn nhw'n mynd i ysgolion cyfrwng Saesneg. Wedi'u cynnwys yn y categori 'Arall' mae niferoedd bychain sy'n mynd i Ysgol y Gogarth.

Tabl 4: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Pencae (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Pencae)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**520**	**100%**
Ysgol Pencae	110	21%
Ysgol Babanod Llanfairfechan neu Ysgol Pant y Rhedyn	230	44%
Ysgol Capelulo	135	26%
Arall (CBSC)	30	6%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill*	15	3%
Ysgolion ffydd**	5	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

8.1.8 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Capelulo. Mae bron i hanner y plant yn mynd i Ysgol Capelulo. Mae 37% yn mynd i Benmaenmawr i gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Wedi'u cynnwys yn y categori 'Arall' mae niferoedd bychain sy'n mynd i Ysgol y Gogarth.

Tabl 5: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Capelulo (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Capelulo)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**270**	**100%**
Ysgol Capelulo	130	49%
Ysgol Pencae	100	37%
Ysgol Porth y Felin	10	4%
Ysgolion Llanfairfechan	10	3%
Arall	10	4%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill*	10	3%
Ysgolion ffydd**	-	0%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.1.9 Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o nifer y disgyblion a all fod yn preswylio ar safleoedd yn nalgylchoedd ysgolion sydd wedi cael caniatâd cynllunio. Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o'r disgyblion hyn eisoes yn byw yn y fwrdeistref ac yn mynd i ysgol arall (gwelwch y tablau dewis ysgol uchod). Mae'r safle strategol sydd wedi'i neilltuo yn Llanfairfechan yn darparu rhan fwyaf o'r datblygiad preswyl arfaethedig yr ardal hon i'r dyfodol.

Tabl 6: Safleoedd preswyl arfaethedig ac wedi'u hymrwymo yn ardal strategaeth y Gorllewin

Ffynhonnell: Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, CBSC

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif o nifer y disgyblion
Dyraniad safle strategol, Llanfairfechan	Wedi'i neilltuo	135	21
Dyraniadau eraill (ardal y gorllewin)	Wedi'i neilltuo	40	6
Hap-safle ar gyfer y gorllewin	Safleoedd amrywiol tan ddiwedd cyfnod y cynllun	80	12
Ysguborwen Road, Dwygyfylchi	Dyraniad CDLl wedi'i fabwysiadu / yn yr arfaeth	15	2
Y Bluen Goch, Dwygyfylchi	Wedi cael caniatâd cynllunio. Rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn ystod y 2 flynedd nesaf	23	4
Ffordd Conwy, Penmaenmawr	Wedi cael caniatâd cynllunio. Rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn ystod y 2 flynedd nesaf	14	2

SYLWER: BYDD Y TABL HWN YN CAEL EI DDIWEDDARU AR GYFER Y CDLlN I'W ARCHWILIO GAN Y CYHOEDD YN DILYN CYTUNO AR DDYRANIADAU SAFLE A NIFEROEDD.

Argymhellion

7.1.10 Bydd capasiti pob ysgol yn cael ei fonitro drwy gydol proses y CDLlN. Bydd cyfraniad ariannol yn ofynnol gan ddatblygwyr (yn amodol ar hyfywedd ariannol), os ystyrir hynny'n angenrheidiol ar gyfer creu capasiti mewn ysgolion.

7.1.11 **Ysgol Babanod Llanfairfechan ac Ysgol Pant y Rhedyn:** Mae Gwasanaethau Addysg CBSC yn cynnig agor ysgol newydd, a fydd yn uno'r ddarpariaeth gynradd bresennol yn Llanfairfechan fel rhan o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy y Fwrdeistref Sirol. Neilltuir tir ar ran o safle strategol Llanfairfechan yn y CDLlN ar gyfer hyn (yn amodol ar benderfyniad y Cabinet, (16/07/2024). Mae trafodaethau gyda'r datblygwr a'r tirfeddiannwr yn mynd rhagddynt.

7.1.12 Bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd yn yr ardal, yn ddibynnol ar gapasiti'r ysgol ar y pryd (ac yn amodol ar hyfywedd).

7.1.13 **Ysgol Pencae:** Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd digon o gapasiti yn yr ysgol hon i ddiwallu anghenion yr ardal mewn perthynas â'r Gymraeg. Os yw nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol, bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd ledled ardal y gorllewin (yn amodol ar hyfywedd).

7.1.14 **Ysgol Capelulo:** Mae'r ysgol hon yn llawn ar hyn o bryd, ac mae'r amcanestyniadau'n dangos y bydd hynny'n parhau. Mae'r ysgol yn cynnig addysg drwy gyfrwng y Saesneg ar gyfer Penmaenmawr a Dwygyfylchi. Yn seiliedig ar y ffigyrau hyn, bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd yn yr ardal hon (yn amodol ar hyfywedd).

7.2 Ardal Strategaeth CDLlN y Creuddyn:

7.2.1 Caiff addysg gynradd yn Llanrhos a Deganwy ei darparu gan Ysgol Deganwy (298 o ddisgyblion). Mae yna rywfaint o gapasiti ar gael. Rhagwelir na fydd llawer o newid yn nifer y disgyblion yn ystod y 5 mlynedd nesaf.

7.2.2 Mae Ysgol Awel y Mynydd yng Nghyffordd Llandudno yn ysgol gynradd ddwy ffrwd. Dim ond Cyffordd Llandudno sydd o fewn dalgylch y ffrwd Saesneg. Mae dalgylch y ffrwd Gymraeg yn ardal fwy sy'n cynnwys Deganwy, Conwy a Glan Conwy. Mae lle i 460 o ddisgyblion. Mae yna 361 o ddisgyblion ar hyn o bryd, sy'n gadael 98 o leoedd gwag.

7.2.3 Ysgol Porth y Felin yw'r ysgol gynradd ar gyfer Conwy. Mae lle i 325 o ddisgyblion. Mae yna 310 o ddisgyblion ar hyn o bryd, sy'n gadael 15 o leoedd gwag. Mae Ysgol Llangelynnin hefyd yn berthnasol o ran darpariaeth addysg Gymraeg yr ardal. Mae yna 34 o leoedd gwag yma, gyda nifer y disgyblion yn debygol o aros yn weddol gyson.

7.2.4 Mae lle i 145 o ddisgyblion yn Ysgol Glan Conwy. Mae yna 115 o ddisgyblion ar hyn o bryd, sy'n gadael 30 o leoedd gwag. Rhagwelir cynnydd bach yn nifer y disgyblion.

7.2.5 Ysgol Glanwydden yw'r ysgol gynradd ar gyfer Bae Penrhyn. Mae lle i 287 o ddisgyblion. Mae yna 276 o ddisgyblion ar hyn o bryd, sy'n gadael 11 o leoedd gwag. Mae Ysgol Morfa Rhianedd yn Llandudno yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer yr ardal hon.

7.2.6 Mae darpariaeth addysg gynradd Saesneg Llandudno yn cael ei darparu gan Ysgol Tudno (161 o ddisgyblion), Ysgol Ffordd Dyffryn (153 o ddisgyblion) ac Ysgol Craig y Don (274 o ddisgyblion), gydag Ysgol Morfa Rhianedd (134 o ddisgyblion) yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae Ysgol San Siôr (212 o ddisgyblion), Ysgol Bodafon (80 o ddisgyblion) ac Ysgol Bendigaid William Davies (116 o ddisgyblion) yn darparu addysg ffydd.

7.2.7 Mae yna rywfaint o leoedd gwag ymhob ysgol ac eithrio Ysgol San Siôr. Mae'r amcanestyniadau yn awgrymu y bydd nifer y disgyblion yn lleihau yn y rhan fwyaf o'r ysgolion hyn. Rhagwelir y bydd y niferoedd yn Ysgol Morfa Rhianedd ac Ysgol Bendigaid William Davies yn aros yn weddol sefydlog.

Tabl 7: capasiti a nifer y disgyblion yn ardal strategaeth y Creuddyn (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020 a CYBLD 2024, Addysg, CBSC

Ysgol	Capasiti	Lleoedd gwag	Niferoedd 2024	Niferoedd rhagamcanol 2029	Yn byw yn nalgylch yr ysgol
Ysgol Deganwy	318	20	298	296	49%
Ysgol Awel y Mynydd, Cyffordd Llandudno	459	98	361	306	77
Ysgol Porth y Felin, Conwy	323	30	293	245	64%
Ysgol Glan Conwy	147	47	100	109	80%
Ysol Glanwydden, Bae Penrhyn	287	11	276	253	55%
Ysgol Tudno, Llandudno	226	65	161	129	50%
Ysgol Ffordd Dyffryn, Llandudno	199	46	153	129	64%
Ysgol Craig y Don	366	92	274	210	47%
Ysgol Morfa Rhianedd, Llandudno	170	36	134	132	83%

Ysgol	Capasiti	Lleoedd gwag	Niferoedd 2024	Niferoedd rhagamcanol 2029	Yn byw yn nalgylch yr ysgol
Ysgol San Siôr, Llandudno	212	0	212	204	63%
Ysgol Bodafon, Llandudno	108	28	80	53	58%
Ysgol Bendigaid William Davies, Llandudno	179	63	116	117	93%

*Sylwer: yn seiliedig ar ddalgylch y ffrwd Saesneg

7.2.8 Mae'r tabl uchod hefyd yn dangos canran y disgyblion sy'n mynd i'r ysgolion ac yn byw o fewn dalgylch swyddogol yr ysgol honno. Ar gyfer Ysgol Deganwy, mae nifer fawr o'r disgyblion yn byw tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn byw yng Nghyffordd Llandudno.

7.2.9 Mae ffigyrau Ysgol Awel y Mynydd yn rhai ar gyfer dalgylch y ffrwd Saesneg. Mae'r disgyblion sy'n byw tu allan i'r dalgylch yn cynnwys y rheiny sy'n byw yn nalgylch y ffrwd Gymraeg (45 disgybl neu 11%), ac felly yn dibynnu ar ba ffrwd mae'r disgyblion ynddi, gall y ganran sy'n byw o fewn y dalgylch fod yn uwch.

7.2.10 Mae bron i ddau draean (64%) o ddisgyblion Ysgol Porth y Felin yn byw yn nalgylch yr ysgol, gyda 15% yn byw yng Nghyffordd Llandudno.

7.2.11 Mae canran uchel (80%) o ddisgyblion Ysgol Glan Conwy yn byw yn y dalgylch. O ran Ysgol Glanwydden, mae bron i hanner y disgyblion yn byw tu allan i ddalgylch yr ysgol(45%). Mae'r rhan fwyaf yn byw yn yr ardal gyfagos.

7.2.12 O ran ysgolion Llandudno, er bod canran y disgyblion sy'n byw tu allan i ddalgylch yr ysgol yn uchel i rai, mae'r rhan fwyaf yn byw o fewn ardal leol Llandudno.

7.2.13 Ni fydd pob plentyn a fydd yn byw yn y datblygiadau newydd arfaethedig neu ymrwymedig yn yr ardal yn mynd i ysgol y dalgylch. Bydd rhai yn dewis ysgol y tu allan i'r dalgylch am resymau amrywiol. Er enghraifft, bydd rhai yn dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill yn dewis ysgol ffydd.

7.2.14 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Deganwy. Mae bron i ddau draean yn dewis Ysgol Deganwy (65%). Mae yna hefyd ychydig bach o blant y dalgylch yn mynd i Ysgol y Gogarth.

Tabl 8: Dewis ysgol yn nalgylch Ysgol Deganwy (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Deganwy)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**220**	**100%**
Ysgol Deganwy	145	65%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg*	15	8%
Ysgolion ffydd**	20	9%
Arall	40	19%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.15 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch ffrwd Saesneg Ysgol Awel y Mynydd. Nid oedd yn bosibl gwahanu'r disgyblion yn rhai cyfwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Mae ychydig dros hanner y plant yn mynd i Ysgol Awel y Mynydd.

Tabl 9: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Awel y Mynydd (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Awel y Mynydd)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**615**	**100%**
Ysgol Awel y Mynydd	325	53%
Ysgol Deganwy	100	16%
Ysgol Porth y Felin	50	8%
Ysgol Glanwydden	20	3%
Llandudno	25	4%
Bae Colwyn	25	4%
Arall (CBSC)	10	2%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg*	20	3%

Ysgol (dalgylch Ysgol Awel y Mynydd)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Ysgolion ffydd**	35	6%
Ysgol y Gogarth	10	2%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.16 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Porth y Felin. Mae oddeutu dau draean yn cadw at y dalgylch. Mae 55 plentyn (19%) yn mynd i ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Tabl 10: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Porth y Felin (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Porth y Felin)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**295**	**100%**
Ysgol Porth y Felin	195	67%
Ysgol Llangelynnin (Cymraeg)	30	11%
Ysgol Awel y Mynydd (dwy ffrwd)	20	8%
Ysgol Deganwy	10	3%
Arall (CBSC)	20	8%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill*	5	1%
Ysgolion ffydd**	5	1%
Ysgol y Gogarth	5	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.17 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Glan Conwy. Mae 67% o blant yr ardal hon yn mynd i'r ysgol leol.

Tabl 11: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Glan Conwy (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Glan Conwy)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**140**	**100%**
Ysgol Glan Conwy	90	67%
Ysgol Awel y Mynydd (dwy ffrwd)	10	9%
Arall (CBSC)	20	13%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill*	10	7%
Ysgolion ffydd**	5	2%
Ysgol y Gogarth	5	2%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.18 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw ymhob dalgylch ar gyfer Ysgol Tudno, Ysgol Ffordd Dyffryn ac Ysgol Craig y Don. Mae yna lawer o orgyffwrdd yn newis teuluoedd Llandudno, sydd yn rhywbeth i'w ddisgwyl mewn ardal drefol gydag ysgolion hygyrch.

Tabl 12: Dewis ysgol yn Llandudno fesul dalgylch ysgol (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol	Nifer Ysgol Tudno	% Ysgol Tudno	Nifer Ysgol Ffordd Dyffryn	% Ysgol Ffordd Dyffryn	Nifer Ysgol Craig y Don	% Ysgol Craig y Don
Cyfanswm	**405**	**100%**	**380**	**100%**	**285**	**100%**
Ysgol Craig y Don	55	14%	60	15%	155	54%
Ysgol Ffordd Dyffryn	40	10%	105	27%	10	3%
Ysgol Tudno	90	22%	60	16%	10	4%
Ysgol Morfa Rhianedd*	55	14%	40	10%	25	9%
Ysgol San Siôr**	95	24%	45	12%	25	9%
Ysgol Bodafon**	10	3%	5	2%	20	7%
Ysgol Bendigaid William Davies**	20	5%	40	11%	15	5%

Ysgol	Nifer Ysgol Tudno	% Ysgol Tudno	Nifer Ysgol Ffordd Dyffryn	% Ysgol Ffordd Dyffryn	Nifer Ysgol Craig y Don	% Ysgol Craig y Don
Ysgol Glanwydden	5	1%	5	1%	10	3%
Ysgolion eraill	25	6%	20	5%	15	5%
Ysgol y Gogarth	5	1%	5	1%	5	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.19 Mae'r tabl isod yn dangos i ba ysgol mae plant dalgylch Ysgol Morfa Rhianedd yn mynd iddi. Dylid nodi mai hwn yw'r dalgylch ar gyfer addysg drwy gyfrwng y Gymraeg, sy'n ardal fawr.

Tabl 13: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Morfa Rhianedd (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Morfa Rhianedd)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**1,315**	**100%**
Ysgol Morfa Rhianedd*	125	9%
Ysgol Tudno	165	13%
Ysgol Ffordd Dyffryn	150	12%
Ysgol Craig y Don	280	21%
Ysgol San Siôr***	175	13%
Ysgol Bendigaid William Davies***	80	6%
Ysgol Bodafon***	55	4%
Ysgol Glanwydden	170	13%
Ysgol Llandrillo-yn-Rhos	30	2%
Ysgol Deganwy	15	1%
Ysgolion Cymraeg eraill**	25	2%
Ysgolion eraill yn y fwrdeistref	30	2%
Ysgol y Gogarth	15	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion cyfrwng Cymraeg categori 1

**Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

***Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.20 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Glanwydden. Mae 62% o blant yr ardal hon yn mynd i'w hysgol leol.

Tabl 14: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Glanwydden (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Glanwydden)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**240**	**100%**
Ysgol Glanwydden	150	62%
Ysgol Llandrillo-yn-Rhos	20	9%
Ysgol Bodafon (Ffydd)	15	6%
Ysgol Craig y Don	10	4%
Ysgol Pen y Bryn	10	4%
Arall (CBSC)	15	6%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg*	5	3%
Ysgolion ffydd eraill**	10	5%
Ysgol y Gogarth	5	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.2.21 Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o nifer y disgyblion a all fod yn preswylio ar safleoedd yn nalgylchoedd ysgolion sydd wedi cael caniatâd cynllunio. Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o'r disgyblion hyn eisoes yn byw yn y fwrdeistref ac na fyddan nhw'n mynd i ysgol yn eu dalgylch lleol (gwelwch y tablau dewis ysgol uchod). Bydd dyraniad Safle Strategol Llanrhos yn darparu cyfran fawr o'r cartrefi newydd sy'n weddill ar gyfer yr ardal hon. Bydd angen dyraniadau eraill hefyd. Rhagwelir hefyd y bydd llawer o hap-safleoedd yn yr ardal hon.

Tabl 15: Safleoedd preswyl arfaethedig ac wedi'u hymrwymo yn y Creuddyn

Ffynhonnell: Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, CBSC

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif o nifer y disgyblion (5-11 oed)
Safle Strategol Llanrhos	Wedi'i neilltuo	110	17
Dyraniadau eraill	Wedi'i neilltuo	115	18
Hap-safleoedd ar gyfer y Creuddyn	Safleoedd amrywiol tan ddiwedd cyfnod y cynllun	330	51
Plas Penrhyn, Bae Penrhyn	Wedi cael caniatâd cynllunio Dechreuodd y datblygiad fis Medi 2023.	21	3
Ffordd Top Llan, Glan Conwy	Wedi cael caniatâd cynllunio. Gwaith datblygu'n mynd rhagddo.	107	17
Nant y Gamar, Llandudno	Wedi cael caniatâd cynllunio. Rhagwelir y bydd yn cael ei gwblhau yn y 18 mis nesaf.	49	8
Iard Nwyddau, Llandudno	Wedi cael caniatâd cynllunio. Gwaith datblygu'n mynd rhagddo.	77	12
Henryd Road, Gyffin	Wedi cael caniatâd cynllunio. Gwaith datblygu'n mynd rhagddo.	10	2

SYLWER: BYDD Y TABL HWN YN CAEL EI DDIWEDDARU YN DILYN CYTUNO AR DDYRANIADAU SAFLE A NIFEROEDD.

Argymhellion

7.2.22 Bydd capasiti pob ysgol yn cael ei fonitro drwy gydol proses y CDLlN. Bydd cyfraniad ariannol yn ofynnol gan ddatblygwyr (yn amodol ar hyfywedd ariannol), os ystyrir hynny'n angenrheidiol ar gyfer creu capasiti mewn ysgolion.

7.2.23 **Ysgol Deganwy:** Neilltuwyd tir ar gyfer addysg fel rhan o ddyraniad safle strategol Llanrhos ar gyfer cam Strategaeth a Ffefrir y CDLlN. O ganlyniad i

newidiadau i faint y safle a nifer y cartrefi newydd, ystyrir bellach y gellir darparu ar gyfer y capasiti ychwanegol sydd ei angen ar safle presennol yr ysgol. Os ystyrir bod angen ysgol newydd, bydd fframwaith polisi'r CDLlN ar gyfer ysgolion newydd yn cefnogi hyn ar dir y tu allan i ffin yr anheddiad, yn amodol ar bolisïau eraill. Bydd angen swm cymudedig o ddyraniad y Safle Strategol a safleoedd eraill o fewn y dalgylch pe bai problem gyda chapasiti yn y dyfodol (yn amodol ar hyfywedd).

7.2.24 **Ysgol Awel y Mynydd:** Ar hyn o bryd ystyrir bod capasiti presennol yr ysgol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion.

7.2.25 **Ysgol Porth y Felin:** Ar hyn o bryd ystyrir bod capasiti presennol yr ysgol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion.

7.2.26 **Ysgol Glan Conwy:** Ar hyn o bryd ystyrir bod capasiti presennol yr ysgol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion.

7.2.27 **Ysgol Glanwydden:** Ar hyn o bryd ystyrir bod capasiti presennol yr ysgol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion.

7.2.28 **Ysgol Morfa Rhianedd:** Ar hyn o bryd ystyrir bod capasiti presennol yr ysgol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion ac i ddarparu addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer yr ardal.

7.2.29 **Ysgol Tudno:** Ar hyn o bryd ystyrir bod capasiti presennol yr ysgol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion.

7.2.30 **Ysgol Ffordd Dyffryn:** Ar hyn o bryd ystyrir bod capasiti presennol yr ysgol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion.

7.2.31 **Ysgol Craig y Don:** Ar hyn o bryd ystyrir bod capasiti presennol yr ysgol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion.

7.2.32 **Ysgol Bendigaid William Davies:** Ar hyn o bryd ystyrir bod capasiti presennol yr ysgol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion.

7.2.33 **Ysgol Bodafon:** Ar hyn o bryd ystyrir bod capasiti presennol yr ysgol yn ddigonol i ddarparu ar gyfer unrhyw gynnydd yn nifer y disgyblion.

7.2.34 **Ysgol San Siôr**: Nid yw capasiti presennol yr ysgol yn ddigon ar gyfer y disgyblion sy'n mynychu'r ysgol. Byddwn yn gofyn am gyfraniad ariannol gan safleoedd yn nalgylch yr ysgol hon yn y dyfodol (yn amodol ar hyfywedd).

7.3 Ardal Strategaeth CDLlN yr Ardal Ganolog: Llandrillo-yn-Rhos, Bae Colwyn, Hen Golwyn, Mochdre a Llysfaen

7.3.1 Caiff darpariaeth addysg gynradd Llandrillo-yn-Rhos ei darparu gan Ysgol Llandrillo-yn-Rhos (400 o ddisgyblion). Mae yna rywfaint o leoedd gwag yn yr ysgol. Rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn lleihau.

7.3.2 Mae addysg gynradd ym Mae Colwyn yn cael ei darparu'n bennaf gan Ysgol Pen y Bryn (398 o ddisgyblion), Ysgol Nant y Groes (223 o ddisgyblion) ac Ysgol Bod Alaw (280 o ddisgyblion), sy'n cynnig addysg drwy gyfrwng y Gymraeg i ardal y strategaeth. Mae Ysgol Sant Joseff (208 o ddisgyblion) ac Ysgol y Plas (69 o ddisgyblion), sy'n cynnig addysg ffydd, hefyd yn berthnasol. Mae rhywfaint o gapasiti ar gael yn Ysgol Pen y Bryn, Ysgol Nant y Groes ac Ysgol Bod Alaw. Mae Ysgol Sant Joseff yn llawn.

7.3.3 Mae addysg gynradd yn Hen Golwyn yn cael ei darparu'n bennaf gan Ysgol Sŵn y Don (116 o ddisgyblion), Ysgol Hen Golwyn (205 o ddisgyblion) ac Ysgol T Gwynn Jones (149 o ddisgyblion). Mae rhywfaint o leoedd ar gael yn y tair ysgol, ond dim ond 13 o leoedd gwag yn Ysgol Hen Golwyn.

7.3.4 Mae addysg gynradd ym Mochdre yn cael ei darparu'n bennaf gan Ysgol Cystennin, sy'n darparu addysg i blant oedran iau, ac Ysgol Babanod Mochdre (108 o ddisgyblion rhwng y ddwy ysgol). Mae rhwyfant o leoedd gwag yn y ddwy ysgol. Fis Ionawr 2024, rhoddodd Cabinet CBSC gymeradwyaeth i uno'r ddwy ysgol. Mae'r dadansoddiad yn y bennod hon wedi'i gyfuno yn seiliedig ar hynny.

7.3.5 Mae addysg gynradd yn Llysfaen yn cael ei darparu gan Ysgol Cynfran (159 o ddisgyblion). Mae lleoedd gwag yn yr ysgol.

Tabl 16: capasiti a nifer y disgyblion yn ardal strategaeth Ganolog y CDLIN (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020 a CYBLD 2024, Addysg, CBSC

Ysgol	Capasiti	Lleoedd gwag	Niferoedd 2024	Niferoedd rhagamcanol 2029	Yn byw yn nalgylch yr ysgol
Ysgol Llandrillo-yn-Rhos	423	23	400	325	59%
Ysgol Pen y Bryn, Bae Colwyn.	414	16	398	368	44%
Nant y Groes, Bae Colwyn	316	93	223	193	74%
Ysgol Bod Alaw, Bae Colwyn	315	35	280	312	87%
Sant Joseff, Bae Colwyn	210	2	208	208	80%
Y Plas	85	16	69	46	68%
Ysgol Cystennin ac Ysgol Babanod Mochdre	163	55	108	164	73%
Ysgol Sŵn y Don, Hen Golwyn.	149	33	116	85	88%
Hen Golwyn (adran iau yn unig), Hen Golwyn	218	13	205	195	49%
T Gwynn Jones (babanod yn unig), Hen Golwyn	181	32	149	142	56%
Ysgol Cynfran, Llysfaen	212	53	159	132	50%

7.3.6 Mae'r tabl uchod hefyd yn dangos canran y disgyblion sy'n mynd i'r ysgolion ac yn byw o fewn dalgylch swyddogol yr ysgol. Mae bron i 60% yn byw o fewn dalgylch Ysgol Llandrillo-yn-Rhos. Mae'r disgyblion sy'n byw tu allan i'r dalgylch yn bennaf yn byw yn y wardiau etholiadol cyfagos.

7.3.7 Mae gan Ysgol Pen y Bryn nifer o blant sy'n byw tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae'r mwyafrif yn byw yn ardal Bae Colwyn. Mae gan Ysgol Nant y Groes ar y llaw arall ganran uwch o ddisgyblion yn byw yn nalgylch yr ysgol. O ran Ysgol Bod Alaw, mae'r rhan fwyaf yn byw yn y dalgylch, sy'n ardal fawr

oherwydd bod yr ysgol yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer yr ardal.

7.3.8 Mae bron i dri chwarter disgyblion ysgol ym Mochdre yn byw o fewn dalgylch y ddwy ysgol. Mae'r disgyblion sy'n byw tu allan i'r dalgylch yn bennaf yn byw yn byw yn yr ardal gyfagos.

7.3.9 Mae canran uchel (88%) o ddisgyblion Ysgol Sŵn y Don yn byw tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae tua hanner disgyblion Ysgol T Gwynn Jones neu Ysgol Hen Golwyn yn byw yn y dalgylch. Mae'r mwyafrif yn byw yn Hen Golwyn.

7.3.10 O ran Ysgol Cynfran, mae tua hanner y disgyblion yn byw tu allan i'r dalgylch. Mae canran uchel yn byw yn Hen Golwyn.

7.3.11 Ni fydd pob plentyn a fydd yn byw yn y datblygiadau newydd arfaethedig neu ymrwymedig yn yr ardal yn mynd i ysgol y dalgylch. Bydd rhai yn dewis ysgol y tu allan i'r dalgylch am resymau amrywiol. Er enghraifft, bydd rhai yn dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill yn dewis ysgol ffydd.

7.3.12 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Llandrillo-yn-Rhos. Mae 60% o blant yr ardal hon yn mynd i ysgol y dalgylch. Mae yna hefyd ychydig bach yn mynd i Ysgol y Gogarth.

Tabl 17: Dewis ysgol yn nalgylch Llandrillo-yn-Rhos (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Llandrillo-yn-Rhos)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**410**	**100%**
Ysgol Llandrillo-yn-Rhos	245	60%
Ysgol Glanwydden	40	10%
Ysgol Pen y Bryn	30	7%
Ysgol Sant Joseph	20	5%
Ysgol Bod Alaw	15	3%
Ysgol Nant y Groes	10	2%
Ysgol Babanod Mochdre ac Ysgol Cystennin	10	2%
Arall (CBSC)	20	4%

Ysgol (dalgylch Ysgol Llandrillo-yn-Rhos)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill*	10	2%
Ysgolion ffydd eraill**	10	2%
Ysgol y Gogarth	5	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.3.13 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Cystennin ac Ysgol Babanod Mochdre. Mae bron hanner plant yr ardal yn mynd i'w hysgol leol yn eu dalgylch. Mae yna hefyd ychydig bach o blant y dalgylch yn mynd i Ysgol y Gogarth.

Tabl 18: Dewis ysgol disgyblion dalgylchoedd ysgolion Mochdre (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (Ysgol Cystennin ac Ysgol Mochdre)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**200**	**100%**
Ysgol Cystennin ac Ysgol Babanod Mochdre	90	46%
Ysgol Pen y Bryn	20	10%
Ysgol Llandrillo-yn-Rhos	20	9%
Ysgol Bod Alaw	20	9%
Ysgol arall ym Mae Colwyn neu Hen Golwyn	10	5%
Arall (CBSC)	20	10%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill*	5	3%
Ysgolion ffydd**	10	4%
Ysgol y Gogarth	5	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.3.14 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Pen y Bryn ac Ysgol Nant y Groes. Mae canran uchel (77%) o'r plant sy'n mynd i Ysgol Pen y Bryn yn byw yn nalgylch yr ysgol. Mae hyn yn is ar gyfer Ysgol Nant y Groes (34%).

Tabl 19: Dewis ysgol disgyblion dalgylchoedd Bae Colwyn (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol	Nifer Ysgol Pen y Bryn	% Ysgol Pen y Bryn	Nifer Ysgol Nant y Groes	% Ysgol Nant y Groes
Cyfanswm	**230**	**100%**	**620**	**100%**
Ysgol Pen y Bryn	180	77%	65	10%
Ysgol Nant y Groes	-	1%	210	34%
Ysgol Bod Alaw	15	6%	85	14%
Ysgol Llandrillo-yn-Rhos	-	0%	55	9%
Ysgol Sant Joseff	15	6%	100	16%
Ysgol arall ym Mae Colwyn	5	3%	40	6%
Ysgolion eraill yn y fwrdeistref	5	3%	30	5%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill*	5	3%	10	2%
Ysgolion ffydd eraill**	-	0%	15	3%
Ysgol y Gogarth	-	0%	5	0%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.3.15 Mae'r tabl isod yn dangos i ba ysgol y mae disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Bod Alaw yn mynd iddi. Mae'n ddalgylch mawr oherwydd bod yr ysgol yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer ardal Bae Colwyn. Mae 9% o'r ardal hon yn dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn ysgol y dalgylch. Mae 3% yn dewis mynd i ysgolion Cymraeg eraill.

Tabl 20: Dewis ysgol dalgylchoedd Ysgol Bod Alaw (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Bod Alaw)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**2,540**	**100%**
Ysgol Bod Alaw	225	9%
Ysgol Pen y Bryn	350	14%
Ysgol Nant y Groes	260	10%
Ysgol Llandrillo-yn-Rhos	345	14%
Ysgol Iau Hen Golwyn	220	9%
Ysgol T. Gwynn Jones	165	7%
Ysgol Cystennin ac Ysgol Babanod Mochdre	110	4%
Ysgol Sŵn y Don	105	4%
Ysgol Sant Joseff	175	7%
Ysgol Cynfran	160	6%
Ysgol Llanddulas	105	4%
Ysgol Glanwydden	60	2%
Ysgol y Plas	60	2%
Ysgolion ffydd eraill**	20	1%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill*	70	3%
Ysgolion eraill yn y fwrdeistref	75	3%
Ysgol y Gogarth	25	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.3.16 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Cynfran, gyda 59% yn dewis Ysgol Cynfran. Mae yna hefyd ychydig bach o blant y dalgylch yn mynd i Ysgol y Gogarth.

Tabl 21: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Cynfran (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Cynfran)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**155**	**100%**
Ysgol Cynfran	90	59%
Ysgol arall ym Mae Colwyn	20	14%
Arall (CBSC)	15	8%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg*	15	9%
Ysgolion ffydd**	15	10%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.3.17 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Sŵn y Don ac Ysgol Iau Hen Golwyn / T Gwynn Jones. Mae oddeutu traean o blant Ysgol Sŵn y Don yn byw o fewn dalgylch yr ysgol. Mae hyn yn uwch ar gyfer Ysgol Iau Hen Golwyn ac Ysgol T Gwynn Jones (45%). Mae yna hefyd ychydig bach yn mynd i Ysgol y Gogarth.

Tabl 22: Dewis ysgol disgyblion dalgylchoedd Hen Golwyn (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol	Dalgylch Ysgol Sŵn y Don	% Dalgylch Ysgol Sŵn y Don	Dalgylch T Gwynn Jones ac Ysgol Iau Hen Golwyn	% Dalgylch T Gwynn Jones ac Ysgol Iau Hen Golwyn
Cyfanswm	**370**	**100%**	**450**	**100%**
Ysgol T Gwynn Jones ac Ysgol Iau Hen Golwyn	125	34%	205	45%
Ysgol Sŵn y Don	100	26%	5	1%
Ysgol Cynfran	35	10%	20	5%
Ysgol arall ym Mae Colwyn	35	9%	75	16%
Arall (CBSC)	30	8%	20	4%

Ysgol	Dalgylch Ysgol Sŵn y Don	% Dalgylch Ysgol Sŵn y Don	Dalgylch T Gwynn Jones ac Ysgol Iau Hen Golwyn	% Dalgylch T Gwynn Jones ac Ysgol Iau Hen Golwyn
Ysgolion cyfrwng Cymraeg*	20	5%	80	18%
Ysgolion ffydd**	25	6%	45	10%
Ysgol y Gogarth	5	2%	5	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.3.18 Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o nifer y disgyblion a all fod yn preswylio ar safleoedd yn nalgylchoedd ysgolion sydd wedi cael caniatâd cynllunio. Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o'r disgyblion hyn eisoes yn byw yn y fwrdeistref ac na fyddan nhw'n mynd i ysgol y dalgylch (gwelwch y tablau dewis ysgol uchod). Bydd dyraniad safle strategol y CDLlN yn Hen Golwyn yn darparu rhan fwyaf o gartrefi newydd yr ardal hon. Disgwylir y daw llawer iawn hefyd drwy hap-safleoedd.

Tabl 23: Safleoedd preswyl arfaethedig ac wedi'u hymrwymo yn yr Ardal Ganolog

Ffynhonnell: Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, CBSC

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif o nifer y disgyblion (5-11 oed)
Dyraniad Strategol Hen Golwyn	Wedi'i neilltuo	300	46
Hap-safleoedd ar gyfer yr Ardal Ganolog	Safleoedd amrywiol tan ddiwedd cyfnod y cynllun	390	60
3-8 Bay View Road, Bae Colwyn	Gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Rhagweld ei gwblhau yn y 2 flynedd nesaf.	54	0 – byw â chymorth

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif o nifer y disgyblion (5-11 oed)
Adeiladau'r Imperial, Bae Colwyn	Wedi cael caniatâd cynllunio. Rhagwelir y caiff ei gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	21	3
Parc Gwyliau Nant y Glyn, Bae Colwyn	Wedi cael caniatâd cynllunio. Rhagweld ei gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	32	5
Yr hen Rydal Penrhos, Bae Colwyn	Wedi cael caniatâd cynllunio. Rhagweld ei gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	94	15
Hen gartref ymadfer Mary Bamber a John Braddock, Bae Colwyn	Gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Rhagweld ei gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	105	13
Tir wrth ymyl yr hen Swyddfeydd Dinesig, Bae Colwyn	Gwaith adeiladu yn mynd rhagddo. Rhagwelir y bydd wedi'i gwblhau yn ystod y 2 flynedd nesaf	37	6

SYLWER: BYDD Y TABL HWN YN CAEL EI DDIWEDDARU YN DILYN CYTUNO AR DDYRANIADAU SAFLE A NIFEROEDD.

Argymhellion

7.3.19 Bydd capasiti pob ysgol yn cael ei fonitro drwy gydol proses y CDLlN. Bydd cyfraniad ariannol yn ofynnol gan ddatblygwyr (yn amodol ar hyfywedd ariannol), os ystyrir hynny'n angenrheidiol ar gyfer creu capasiti mewn ysgolion.

7.3.20 **Ysgol Llandrillo-yn-Rhos:** Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd digon o gapasiti yn yr ysgol i ddiwallu anghenion addysgol yr ardal. Os yw nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol, bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd yn y dalgylch (yn amodol ar hyfywedd).

7.3.21 **Ysgol Cystennin a Babanod Mochdre:** Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd digon o gapasiti yn yr ysgol i ddiwallu anghenion addysgol yr ardal.

7.3.22 **Ysgol Pen y Bryn:** Ar hyn o bryd disgwylir y bydd digon o gapasiti yn yr ysgol i ddiwallu anghenion addysgol yr ardal.

7.3.23 **Ysgol Nant y Groes:** Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd digon o gapasiti yn yr ysgol i ddiwallu anghenion addysgol yr ardal.

7.3.24 **Ysgol Bod Alaw:** Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd digon o gapasiti yn yr ysgol i ddiwallu anghenion addysg cyfrwng Cymraeg yr ardal. Os yw nifer y disgyblion yn cynyddu'n sylweddol, bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd yn y dalgylch (yn amodol ar hyfywedd).

7.3.25 **Ysgol y Plas:** Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd digon o gapasiti yn yr ysgol i ddiwallu anghenion addysgol yr ardal. Os yw nifer y disgyblion yn cynyddu, efallai y bydd angen cyfraniad ariannol pro rata gan safleoedd yn y dalgylch (yn amodol ar hyfywedd) sy'n adlewyrchu'r dewis o ysgolion yn yr ardal.

7.3.26 **Ysgol Sant Joseff:** Mae'r ysgol yn llawn ar hyn o bryd. Efallai y bydd angen cyfraniad ariannol pro rata gan safleoedd yn y dalgylch (yn amodol ar hyfywedd) sy'n adlewyrchu'r dewis o ysgolion yn yr ardal.

7.3.27 **Ysgol Sŵn y Don:** Mae rhywfaint o gapasiti ar hyn o bryd yn yr ysgol, a rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn gostwng. Mae'r safle strategol mawr sydd wedi'i neilltuo o fewn dalgylch yr ysgol hon; fodd bynnag, nid i'r ysgol hon yn unig mae disgyblion yr ardal yn mynd iddi. Mae gan yr ysgolion hyn rywfaint o gapasiti hefyd. Mae yna dir sy'n eiddo i'r Cyngor gerllaw Ysgol Sŵn y Don y gellid ei ddefnyddio i godi estyniad i wneud lle ar gyfer mwy o ddisgyblion pe bai angen. Bydd y tir hwn yn cael ei ddiogelu ar gyfer y pwrpas hwn yn y CDLlN. Pe bai'r ysgol yn dod yn llawn, byddai angen cyfraniad ariannol gan safleoedd yn y dalgylch (yn amodol ar hyfywedd).

7.3.28 **Ysgol T. Gwynn Jones ac Ysgol Iau Hen Golwyn:** Mae rhywfaint o gapasiti yn yr ysgol ar hyn o bryd, a rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn gostwng ychydig. Er bod y safle strategol mawr a neilltuwyd y tu allan i ddalgylch y ddwy ysgol yma, maen nhw'n ysgolion a ddewisir gan ddisgyblion presennol yr ardal. Os yw nifer y disgyblion yn cynyddu, bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd yn y dalgylch (yn amodol ar hyfywedd).

7.3.29 **Ysgol Cynfran:** Ar hyn o bryd rhagwelir y bydd digon o gapasiti yn yr ysgol i ddiwallu anghenion addysgol yr ardal.

7.4 Ardal Strategaeth CDLlN y Dwyrain: Abergele, Towyn a Bae Cinmel, a Llanddulas

7.4.1 Caiff addysg gynradd drwy gyfrwng y Saesneg yn Abergele ei darparu'n bennaf gan Ysgol Babanod Glan Gele (215 o ddisgyblion) ac Ysgol Iau Sant Elfod (288 o ddisgyblion). Mae Ysgol Glan Morfa (225 o ddisgyblion) yn darparu addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y dwyrain. Mae yna rywfaint o leoedd gwag yn y tair ysgol. Rhagwelir y bydd gostyngiad bach yn nifer y disgyblion yn Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod. Rhagwelir y bydd cynnydd bach yn Ysgol Glan Morfa.

7.4.2 Mae Ysgol St George (62 o ddisgyblion) hefyd yn berthnasol i ardal y dwyrain. Mae dalgylch yr ysgol hon yn fach ac yn cynnwys rhan fechan o ward Gele sydd y tu allan i ffiniau anheddiad Abergele.

7.4.3 Caiff addysg gynradd Towyn a Bae Cinmel ei darparu'n bennaf gan Ysgol y Foryd (165 o ddisgyblion) ac Ysgol Maes Owen (208 o ddisgyblion). Darperir addysg drwy gyfrwng y Gymraeg yn Ysgol Glan Morfa, Abergele. Mae gan y ddwy ysgol gapasiti a rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn gostwng.

7.4.4 Caiff darpariaeth addysg gynradd Llanddulas ei darparu gan Ysgol Llanddulas (131 o ddisgyblion). Mae'r ysgol yn llawn ar hyn o bryd ond rhagwelir y bydd nifer y disgyblion yn gostwng.

Tabl 24: capasiti a nifer y disgyblion yn ardal strategaeth CDLlN y Dwyrain (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020 a CYBLD 2024, Addysg, CBSC

Ysgol	Capasiti	Lleoedd gwag	Niferoedd 2024	Niferoedd rhagamcanol 2029	Yn byw yn nalgylch yr ysgol
Ysgol Babanod Glan Gele, Abergele	242	27	215	205	76%
Ysgol Iau Sant Elfod, Abergele	300	12	288	276	76%
Ysgol Glan Morfa, Abergele	260	35	225	232	87%
Ysgol St George	71	9	62	53	6%

Ysgol	Capasiti	Lleoedd gwag	Niferoedd 2024	Niferoedd rhagamcanol 2029	Yn byw yn nalgylch yr ysgol
Ysgol y Foryd, Towyn a Bae Cinmel	201	36	165	143	85%
Ysgol Maes Owen, Towyn a Bae Cinmel	265	57	208	201	85%
Ysgol Llanddulas	131	0	131	111	50%

7.4.5 Mae'r tabl uchod hefyd yn dangos canran y disgyblion sy'n mynd i'r ysgolion ac yn byw o fewn dalgylch swyddogol yr ysgol.

7.4.6 Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Ysgol Glan Gele, Ysgol Sant Elfod, Ysgol Glan Morfa, Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen yn byw yn nalgylch eu hysgolion. O ran Ysgol St George, mae nifer bychan yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol. Mae tua hanner disgyblion Ysgol Llanddulas yn byw yn y dalgylch.

7.4.7 Ni fydd pob plentyn a fydd yn byw yn y datblygiadau newydd arfaethedig neu ymrwymedig yn yr ardal yn mynd i ysgol y dalgylch. Bydd rhai yn dewis ysgol y tu allan i'r dalgylch am resymau amrywiol. Er enghraifft, bydd rhai yn dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill yn dewis ysgol ffydd. O ran disgyblion sy'n byw yn Abergele, mae'r rhan fwyaf yn mynd i un o'r tair ysgol yn y dref.

Tabl 25: Dewis ysgol yn nalgylch ysgolion Abergele (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Sant Elfod / Ysgol Glan Gele)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**700**	**100%**
Ysgol Sant Elfod a Glan Gele	395	57%
Ysgol Glan Morfa	160	23%
Ysgol Llanddulas	30	4%
Ysgol St George	25	4%
Towyn	15	2%
Arall (CBSC)	30	4%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg*	10	1%
Ysgolion ffydd**	20	3%

Ysgol (dalgylch Ysgol Sant Elfod / Ysgol Glan Gele)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Ysgol y Gogarth	10	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.4.8 Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Llanddulas.

Tabl 26: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Llanddulas (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Llanddulas)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**110**	**100%**
Ysgol Llanddulas	75	69%
Ysgolion Abergele	10	9%
Ysgolion Bae Colwyn	10	8%
Arall (CBSC)	5	4%
Ysgolion cyfrwng Cymraeg*	10	9%
Ysgolion ffydd**	0	0%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

*Yn cynnwys ysgolion categori 1 cyfrwng Cymraeg ac ysgolion categori 2 dwy ffrwd

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.4.9 Ni ystyrir dadansoddiadau pellach o ddewis ysgol yn ardal Towyn a Bae Cinmel a Llansan Sior yn angenrheidiol, gan ei fod yn annhebygol iawn y bydd datblygiad preswyl mawr yn yr ardaloedd hynny.

7.4.10 Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o nifer y disgyblion a all fod yn preswylio ar safleoedd yn nalgylchoedd ysgolion sydd wedi cael caniatâd cynllunio. Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o'r disgyblion hyn eisoes yn byw yn y fwrdeistref ac na fyddan nhw'n mynd i ysgol y dalgylch (gwelwch y tablau dewis ysgol uchod). Ni chynigir unrhyw ddyraniad drwy'r CDLlN ar gyfer ardal

y dwyrain, oherwydd ystyrir y bydd ymrwymiadau presennol a hap-safleoedd yn diwallu'r angen am dai dros gyfnod y cynllun.

Tabl 27: Safleoedd preswyl arfaethedig ac wedi'u hymrwymo yn y Dwyrain

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, CBSC

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif o nifer y disgyblion (5-11 oed)
Hap-safleoedd	Safleoedd amrywiol tan ddiwedd cyfnod y cynllun	60	9
Plas Dulas, Llanddulas	Wedi cael caniatâd cynllunio Rhagwelir y caiff ei gwblhau yn y 10 mlynedd nesaf.	15	2
Interleisure, Abergele	Wedi cael caniatâd cynllunio Rhagwelir y caiff ei gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	128	20
Llys Onnen, Water Street, Abergele	Wedi cael caniatâd cynllunio Rhagwelir y caiff ei gwblhau yn y 5 mlynedd nesaf.	43	0 – fflatiau ar gyfer pobl 55+ oed
Fferm Tandderwen, Ffordd Llan Sain Siôr, Abergele*	Cais cynllunio wedi'i gyflwyno, dim penderfyniad eto	297	46

*Mae'r safle hwn wedi'i gynnwys er gwybodaeth yn unig. Nid oes ganddo ganiatâd cynllunio ar hyn o bryd.

SYLWER: BYDD Y TABL HWN YN CAEL EI DDIWEDDARU YN DILYN CYTUNO AR DDYRANIADAU SAFLE A NIFEROEDD.

Argymhellion

7.4.1 Bydd capasiti pob ysgol yn cael ei fonitro drwy gydol proses y CDLlN. Bydd cyfraniad ariannol yn ofynnol gan ddatblygwyr (yn amodol ar hyfywedd ariannol), os ystyrir hynny'n angenrheidiol ar gyfer creu capasiti mewn ysgolion.

7.4.2 **Ysgol Glan Gele ac Ysgol Sant Elfod:** Bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd yn yr ardal, yn ddibynnol ar gapasiti'r ysgol ar y pryd (yn amodol ar hyfywedd).

7.4.3 **Ysgol Glan Morfa:** Bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd yn yr ardal, yn ddibynnol ar gapasiti'r ysgol ar y pryd (yn amodol ar hyfywedd).

7.4.4 **Ysgol y Foryd ac Ysgol Maes Owen:** Mae polisi cynllunio cenedlaethol ar hyn o bryd yn cyfyngu ar lefel yr adeiladu tai a ganiateir yn Nhowyn a Bae Cinmel. Am y rheswm hwn, ni chynigir unrhyw ddatblygiad mawr fel rhan o'r CDLlN Mae'n annhebygol iawn y bydd y CDLlN yn arwain at gynnydd yn nifer y disgyblion ysgol; mae digon o gapasiti yn y ddarpariaeth bresennol o ysgolion, ac mae amcanestyniadau disgyblion yn dangos y bydd gostyngiad yn nifer y disgyblion.

7.4.5 **Ysgol St George:** Mae polisi cynllunio cenedlaethol a lleol yn cyfyngu ar lefel yr adeiladu tai a ganiateir yn nalgylch Ysgol St George. Am y rheswm hwn, ni chynigir unrhyw ddatblygiad mawr yn yr ardal hon fel rhan o'r CDLlN ac felly ni ellir ceisio unrhyw rwymedigaeth.

7.4.6 **Ysgol Llanddulas:** Bydd angen cyfraniad ariannol gan hap-safleoedd yn yr ardal, yn dibynnu ar gapasiti'r ysgol ar y pryd (yn amodol ar hyfywedd).

7.5 Ardal Wledig y CDLlN: Llanrwst

7.5.1 Mae darpariaeth addysg gynradd Llanrwst yn cael ei darparu gan Ysgol Bro Gwydir (294 o ddisgyblion). Mae yna ychydig o leoedd gwag yn yr ysgol. Mae Ysgol Llanddoged (36 o ddisgyblion) hefyd yn berthnasol, ac mae yna leoedd gwag ynddi.

Tabl 28: capasiti a nifer y disgyblion yn Llanrwst (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020 a CYBLD 2024, Addysg, CBSC

Ysgol	Capasiti	Lleoedd gwag	Niferoedd 2024	Nifer rhagamcanol 2029	Yn byw yn nalgylch yr ysgol
Ysgol Bro Gwydir, Llanrwst	311	17	294	266	80%
Ysgol Llanddoged	97	61	36	35	42%

7.5.2 Mae'r tabl uchod hefyd yn dangos canran y disgyblion sy'n mynd i'r ysgolion ac yn byw o fewn dalgylch swyddogol yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion (80%) sy'n mynd i Ysgol Bro Gwydir yn byw yn nalgylch yr ysgol.

7.5.3 Ni fydd pob plentyn a fydd yn byw yn y datblygiadau newydd arfaethedig neu ymrwymedig yn yr ardal yn mynd i ysgol y dalgylch. Bydd rhai yn dewis ysgol y tu allan i'r dalgylch am resymau amrywiol. Er enghraifft, bydd rhai yn dewis addysg drwy gyfrwng y Gymraeg ac eraill yn dewis ysgol ffydd. Mae'r tabl isod yn dangos dewis ysgol disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Bro Gwydir. Mae canran uchel (89%) yn dewis eu hysgol leol.

Tabl 29: Dewis ysgol dalgylch Ysgol Bro Gwydir (5-11 oed)

Ffynhonnell: CYBLD 2020, Addysg, CBSC

Ysgol (dalgylch Ysgol Bro Gwydir)	Nifer y disgyblion	% y disgyblion
Cyfanswm	**313**	**100%**
Ysgol Bro Gwydir	280	89%
Ysgol Llanddoged	10	4%
Ysgol Dyffryn yr Enfys	5	2%
Ysgol wledig arall	5	2%
Arall (CBSC)	5	1%
Ysgolion ffydd**	Llai na 5	1%
Ysgol y Gogarth	5	1%

Talgrynwyd i'r 5 agosaf. Mae'n bosibl na fydd y cyfansymiau'n adio.

**Yn cynnwys ysgolion a gynorthwyir yn wirfoddol, yn cynnwys ysgolion yr Eglwys yng Nghymru ac ysgolion Catholig

7.5.4 Mae'r tabl isod yn dangos amcangyfrif o nifer y disgyblion a all fod yn preswylio ar safleoedd yn nalgylch yr ysgol sydd wedi cael caniatâd cynllunio. Mae'n bwysig nodi y bydd nifer o'r disgyblion hyn eisoes yn byw yn y fwrdeistref ac na fyddan nhw'n mynd i ysgol eu dalgylch (gwelwch y tabl dewis ysgol uchod). Disgwylir i'r safle strategol sydd wedi'i neilltuo ddiwallu'r rhan fwyaf o weddill yr angen am dai yn Llanrwst. Mae dyraniad presennol y CDLl ar gyfer Llanrwst hefyd yn berthnasol. Mae'r ffigwr ar gyfer hap-safleoedd yn cynnwys safleoedd ar draws yr ardal wledig gyfan, sy'n debygol o fod yn fach o ran maint.

Tabl 30: Safleoedd preswyl arfaethedig ac wedi'u hymrwymo yn Llanrwst

Ffynhonnell: Polisi Cynllunio Strategol, CBSC

Safle	Statws	Anheddau	Amcangyfrif o nifer y disgyblion (5-11 oed)
Dyraniad Strategol Llanrwst	Wedi'i neilltuo	100	15
Hap-safle ar gyfer yr Ardal Wledig	Safleoedd amrywiol tan ddiwedd cyfnod y cynllun	115	18
Bryn Hyfryd, Llanrwst	Caniatâd wedi'i roi ar gyfer Cam 1 (14 annedd). Disgwylir cais cynllunio eleni ar gyfer Cam 2 (40 annedd).	54	8

SYLWER: BYDD Y TABL HWN YN CAEL EI DDIWEDDARU YN DILYN CYTUNO AR DDYRANIADAU SAFLE A NIFEROEDD.

Argymhellion

7.5.5 Bydd capasiti pob ysgol yn cael ei fonitro drwy gydol proses y CDLlN. Bydd cyfraniad ariannol yn ofynnol gan ddatblygwyr (yn amodol ar hyfywedd ariannol), os ystyrir hynny'n angenrheidiol ar gyfer creu capasiti mewn ysgolion.

7.5.6 **Ysgol Bro Gwydir:** Ar hyn o bryd disgwylir y bydd digon o gapasiti yn yr ysgol i ddiwallu anghenion addysgol yr ardal. Os yw nifer y disgyblion yn cynyddu'n

sylweddol, mae'n bosibl y bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd yn y dalgylch (yn amodol ar hyfywedd).

7.5.7 Ni chynhwyswyd ysgolion eraill yn ardal y Strategaeth Wledig gan ei bod yn annhebygol y bydd unrhyw ddatblygiad preswyl yn cyrraedd y trothwy safle o 10 annedd sydd ei angen cyn y ceisir rhwymedigaeth ar gyfer ysgolion.

8 Ysgolion Uwchradd

8.1 Yn wahanol i ysgolion cynradd, mae'r amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer y CDLlN yn dangos cynnydd o 400 yn nifer y preswylwyr 11-17 oed. Mae hyn wedi'i rannu fesul ardal strategaeth dwf y CDLlN.

Tabl 31: Y cynnydd a ragwelir yn nifer y bobl ifanc 11-17 oed fesul ardal ofodol y CDLlN (2018-33)

Ffynhonnell: Amcanestyniadau 2018, CBSC

Ardal strategaeth y CDLlN	% y twf	Cynnydd yn y boblogaeth (11-17 oed)
Gorllewin Llanfairfechan, Penmaenmawr, Dwygyfylchi	10	40
Creuddyn Llandudno, Bae Penrhyn, Deganwy, Cyffordd Llandudno, Conwy	30	120
Canol Bae Colwyn, Llandrillo-yn-Rhos, Mochdre, Hen Golwyn, Llysfaen	35	140
Dwyrain Abergele, Towyn, Bae Cinmel, Llanddulas	15	60
Ardaloedd Gwledig	10	40
Cyfanswm	**100**	**400**

Sylwer: mae'r boblogaeth ar gyfer Bwrdeistref Sirol Conwy cyfan, gan gynnwys y rhannau sydd ym Mharc Cenedlaethol Eryri

8.2 Er bod pryderon gwirioneddol ynghylch defnyddio'r amcanestyniadau hyn ar gyfer ardal lai, mae'n helpu i nodi twf posibl. Mae amcanestyniadau data CYBLD wedi'u cynnwys yn y tabl isod, sy'n darparu ail ddangosydd o newid ar gyfer pob un o'r ysgolion uwchradd yn y fwrdeistref.

8.3 Mae'r tabl isod yn dangos nifer y disgyblion rŵan a'r nifer rhagamcanol o gymharu â'r capasiti. Mae gan y rhan fwyaf o'r ysgolion uwchradd ddigon o gapasiti i roi lle i'r disgyblion ychwanegol. Mae'n bosibl y bydd problemau capasiti yn Ysgol Bryn Elian yn y dyfodol. Mae dalgylch yr ysgol hon yn cynnwys Betws-yn-Rhos, wardiau Eirias a Cholwyn, Llysfaen a Llanddulas. Mae 63% (585 o ddisgyblion) yn byw yn yr ardaloedd yma ond mae 36% (335 o ddisgyblion) yn byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol.

8.4 Mae yna leoedd gwag yn Ysgol Creuddyn ond rhagwelir y bydd cynnydd sylweddol yn y dyfodol.

Tabl 32: capasiti a nifer y disgyblion mewn ysgolion uwchradd (2024)
Ffynhonnell: CYBLD 2024, Addysg, CBSC

Ysgol	Capasiti	Lleoedd gwag	Niferoedd 2024	Niferoedd 2029
Bryn Elian, Hen Golwyn	1,037	15	1,022	1,068
Eirias, Bae Colwyn	1,497	272	1,225	1,099
John Bright, Llandudno	1,469	351	1,118	1,025
Emrys ap Iwan, Abergele	1,196	234	962	964
Dyffryn Conwy, Llanrwst	813	166	647	660
Creuddyn, Bae Penrhyn	716	43	673	773
Aberconwy, Conwy	1,244	179	1,065	1,107

Argymhellion

8.5 Rhagwelir y bydd y ddarpariaeth ysgol bresennol yn gallu diwallu'r twf yn y grŵp oedran hwn yn ystod cyfnod y CDLlN o ran addysg drwy gyfrwng y Saesneg. Bydd capasiti pob ysgol yn cael ei fonitro drwy gydol proses y CDLlN.

8.6 **Ysgol Bryn Elian:** Ystyriwyd diogelu tir gerllaw safle Ysgol Bryn Elian oherwydd cyfyngiadau capasiti yno. Fodd bynnag, oherwydd ansicrwydd ynghylch cyllid posibl i ariannu unrhyw estyniad, ystyrir na ellir dangos bod modd cyflawni unrhyw gynllun i gyfiawnhau hyn. Yn ogystal, mae'r tir tu allan i ffin yr anheddiad, lle na chaniateir datblygiad fel rheol. Mae dull polisi newydd y CDLlN sy'n ymwneud ag ysgolion yn cefnogi estyniad i'r ysgol ar y tir hwn,

yn amodol ar ofynion polisi eraill. Mae'n bosibl y bydd angen cyfraniad ariannol gan safleoedd, yn dibynnu ar gapasiti'r ysgol ar y pryd (yn amodol ar hyfywedd).

8.7 **Ysgol** Creuddyn**:** efallai y bydd angen capasiti ychwanegol yma yn y dyfodol os yw nifer y disgyblion yn parhau i gynyddu. Mae dull polisi newydd y CDLlN sy'n ymwneud ag ysgolion yn cefnogi estyniad i'r ysgol ar y tir hwn, yn amodol ar ofynion polisi eraill. Gofynnir am gyfraniad pro rata sy'n adlewyrchu amcangyfrif o'r nifer a fydd yn dewis addysg Gymraeg (yn amodol ar hyfywedd).

9 Darpariaeth anghenion dysgu ychwanegol

9.1 Cynigir codi estyniad ar Ysgol y Gogarth fel rhan o Raglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy (i'w gyflawni ym mlynyddoedd 1-3). Disgwylir y bydd hyn yn diwallu anghenion byrdymor yr ysgol. Bydd angen monitro ymhellach drwy broses y CDLlN.

9.2 Disgwylir y bydd digon o gapasiti yn yr Unedau Cyfeirio Disgyblion i ddarparu ar gyfer yr opsiynau twf a gynigir yn CDLlN. Bydd hyn yn cael ei fonitro drwy broses y CDLlN.

10 Casgliad

10.1 Mae'r papur hwn yn disgrifio dull y Cyngor o liniaru effaith y newid a ragwelir yn y boblogaeth dros gyfnod y CDLlN ar ysgolion yn yr ardal. Mae'n cyd-fynd â'r rhaglen Cymunedau Dysgu Cynaliadwy. Paratowyd y papur a'r dull arfaethedig gan wasanaethau Polisi Cynllunio Strategol ac Addysg CBSC, sy'n cefnogi'r dull a gynigir, fel y dangosir yn y Datganiad Tir Cyffredin ynghlwm. Bydd y cydweithio agos hwn yn parhau drwy gydol cyfnod y CDLlN i fonitro'r capasiti ac anghenion ysgol eraill, fel y gellir ceisio mesurau lliniaru priodol fel bo'r angen.

10.2 Mae'r CDLlN yn cynnig neilltuo tir ar gyfer ysgol newydd yn Llanfairfechan, ar y safle strategol a neilltuwyd. Cynigir hefyd diogelu tir wrth ymyl Ysgol Sŵn y Don i wneud lle ar gyfer estyniad, petai angen hynny yn y dyfodol. Ceisir

cyfraniadau ariannol pan fydd tystiolaeth yn dangos bod angen hynny i liniaru effaith unrhyw ddatblygiad preswyl arfaethedig.

10.3 Bydd dull polisi arfaethedig y CDLlN ar gyfer ysgolion yn cynnwys dull yn seiliedig ar feini prawf i arwain cynigion ar gyfer cyfleusterau newydd ac estyniadau i rai presennol.